HYSBYSIAD STATUDOL I DERFYNU YSGOL BABANOD ABBOT'S LANE, PENYFFORDD AG YSGOL IAU PENYFFORDD, A SEFYDLU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NEWYDD

CYNGOR SIR Y FFLINT

HYSBYSIR TRWY HYN yn unol ag Adran 28(1)(a) a 29(1)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (SI1999/1671) fel y'u diwygiwyd, bod Cyngor Sir y Fflint o Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bobl ag yr ymddangosai'n briodol iddynt hwy, yn bwriadu:-

- Terfynu Ysgol Fabanod Abbot's Lane, Park Crsecent, Penyffordd, Sir y Fflint, CH4 0HW

- Terfynu Ysgol Iau Penyffordd, Ffordd Penynymyndd, Penyffordd, Sir y Fflint, Ch4 0LQ

- Sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol newydd a lleoliad Meithrin ar gyfer bechgyn a genethod 3 - 11 mlwydd oed ar safle'r ysgolion Babanod a Chynradd presennol a defnyddio adeiladau presennol yr ysgol.

Bwriedir gweithredu'r cynigion i derfynu'r ddwy ysgol uchod ar yr 31 Awst 2013 ac i weithredu'r cynnig i sefydlu'r ysgol newydd ar y 1 Medi 2013.

Bwriedir i'r holl ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Babanod Abbot's Lane ac Ysgol Iau Penyffordd ar 31 Awst 2013 gael mynychu'r ysgol newydd sydd i fod i'w sefydlu ar y 1 Medi 2013.

Ysgol Gynradd Gymunedol fydd yr ysgol arfaethedig newydd. Byddir yn ymdrin â threfniadau derbyn yn unol â Pholisi Derbyn yr Sir y Fflint. Ni fydd dim darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer naill ai dethol trwy dueddfryd neu fandio disgyblion.

Byddir yn ymdrin â chludo disgyblion trwy gyfeirio at Bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Bydd lle yn yr ysgol newydd ar gyfer 259 o ddisgyblion ynghyd â 12 o blant Meithrin. Nifer y disgyblion sydd i'w derbyn i'r ysgol newydd yn bedair blwydd oed yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu yw 37.

O fewn cyfnod o un mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 7 fed o Fehefin 2013 gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND.

Bydd yr Awdurdod yn anfon copïau o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u sylwadau am hynny, at Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod o ddwy wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Bydd y cynigion (oni bai y cânt eu tynnu'n ôl) ag angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru os:-

(a) O fewn dau fis wedi i gopi ohonynt gael ei anfon at Weinidogion Cymru y mae'n rhoi hysbysiad bod arnynt angen cymeradwyaeth o'r fath; neu

(b) Bod gwrthwynebiadau wedi'u gwneud o fewn y cyfnod gwrthwynebu ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ble nad yw cynigion ag angen cymeradwyaeth o'r fath, bydd Cyngor Sir y Fflint, yn gweithredu fel Awdurdod Lleol, yn penderfynu pa un ai i'w gweithredu.

Arwyddwyd: Jean Budd

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes

Dyddiedig: 10fed Mai 2013